# Ysgol
# Betws yn Rhos

# Prospectws
# 2021 - 2022

**Ysgol Reoledig Wirfoddol Betws yn Rhos**

**Betws yn Rhos Voluntary Controlled School**

Betws yn Rhos
Abergele
Conwy
LL22 8AW

Ffôn/Tel : 01492 680603
e-bost / e-mail: pennaeth@betwsynrhos.conwy.sch.uk
Twitter: @YBetwsynRhos
Gwefan: www.ysgolbetwsynrhos.com




## Croeso

Dymuna'r Llywodraethwyr a'r staff eich croesawu i Ysgol Betws yn Rhos, a mawr obeithiwn y bydd y Llawlyfr hwn yn ddefnyddiol i chi. Croesawn eich plentyn atom, ac edrychwn ymlaen at gydweithrediad clos gyda chi rieni er lles a hapusrwydd eich plentyn.

## Welcome

The Governors and staff welcome you to Betws yn Rhos school and hope that this prospectus will be useful to you as your child starts her / his school life with us. We welcome your child to our school and look forward to having a close working relationship with you parents for the benefit of your child's happiness and well being.

## STAFF YR YSGOL / SCHOOL STAFF

Dyma'r staff fydd yn gofalu am y plant yn ystod 2019 / 20:

**Staff Dysgu / Teaching Staff**

| | |
|---|---|
| Pennaeth / Head teacher | Mrs Carys Wellsbury |
| Athrawon / Teaching staff | Mrs Rowena Pegg |
| | Mrs Sioned Evans |
| | Miss Gwawr Evans |
| | Miss Anest Jones |
| Cymhorthydd Dosbarth / Classroom Assistant | Mrs Eira Wyn Vickers |
| | Miss Esyllt Williams |
| | Mrs Bethan Hughes |

**Staff Ategol / Auxiliary Staff**

| | |
|---|---|
| Ysgrifennyddes / Secretary | Miss Esyllt Williams |
| Gofalwr / Caretaker | Mrs Gayle George |
| Goruchwylwyr amser cinio/Mid Day Supervisors | Mrs Eira Vickers |
| | Miss Esyllt Williams |
| | Mrs Bethan Hughes |
| Cogyddes / Cook | Mrs Eifiona Birkhead |
| Cymhorthydd Gegin | Mrs Becka Barham |



## LLYWODRAETHWYR YR YSGOL / SCHOOL GOVERNORS

| | |
|---|---|
| Pennaeth / Head | Mrs Carys Wellsbury<br>Ffôn/Tel 01492 680603 |
| Cadeirydd / Chairperson | Dr Ceridwen Churchill<br>c/o Ysgol Betws yn Rhos |
| Is-Gadeirydd / Vice Chairperson | Mr Ywain Williams |
| Rhiant Lywodraethwyr / Parent Governors | Mrs Rachel Jones<br>Mrs Lois Hatfield<br>Mr Ywain Williams |
| Aelodau Sail / Foundation Governors | Dr Ceridwen Churchill<br>Mrs Sue Pinney |
| Athrawes Lywodraethwr / Teacher Governor | Mrs Rowena Pegg |
| Adran Addysg / LEA | Mr Ifor Lloyd<br>Mr Hefin Williams |
| Cymuned / Community | Mr Tudur Jones |
| Cyfetholedig / Co opted | Mr John Wheway |
| Clerc / Clerk | - |



## Math O Ysgol

Ysgol Wirfoddol Reoledig yr Eglwys yng Nghymru ydy Ysgol Betws yn Rhos, ysgol wledig a gafodd ei sefydlu yn 1861. Mae ein hysgol yn un gyd-addysgol ddyddiol ar gyfer bechgyn a merched rhwng 3 – 11 oed sy'n cynnig Addysg trwy gyfrwng y Gymraeg, gyda 2 aelod o staff dysgu llawn amser, 3 rhan amser, a phedwar dosbarth. Ar hyn o bryd mae 67 o ddisgyblion llawn amser a 12 o blant Meithrin. Gwneir defnydd o Neuadd y Pentref a'r cae chwarae lleol sydd ger yr ysgol ar gyfer gwersi Addysg Gorfforol. Mae pentref Betws yn Rhos bedair milltir tu allan i dref Abergele.

## Type Of School

We are a Voluntary Controlled Church in Wales Primary School, a rural school that was established in 1861. It is a day co-educational school for girls and boys aged 3 to 11, offering Primary Education through the medium of Welsh with 2 full time and 3 part time members of teaching staff working in four classrooms. At present there are 67 full time pupils and 12 Nursery children. The Village Hall and local sports field, which are situated next to the school, are used for Physical Education. The village is four miles from Abergele.



## Trefniadaeth Dosbarth

Eleni, rhennir y dosbarthiadau fel a ganlyn:-

| | |
|---|---|
| Meithrin | Miss Anest Jones a Mrs Carys Wellsbury a Miss Esyllt Williams |
| Derbyn a Blwyddyn 1 | Mrs Rowena Pegg a Mrs Eira Vickers |
| Blwyddyn 2 a 3 | Mrs Sioned Evans a Miss Anest Jones a Mrs Bethan Hughes |
| Blwyddyn 4, 5 a 6 | Mrs Carys Wellsbury a Miss Gwawr Evans Miss Esyllt Williams a Mrs Bethan Hughes- Cymhorthydd CA2 |

Bydd pob athrawes unigol yn gyfrifol am baratoi cynllun gwaith tymhorol ar gyfer ei dosbarth, i gyd fynd â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol 2008, Rhaglenni Astudio Diwygiedig Cymraeg, Saesneg a Mathemateg, Cynlluniau Tymor Hir, a Themau yr ysgol. Ar hyn o bryd, mae'r Ysgol wrthi'n cynllunio a pharatoi ar gyfer y Cwricwlwm newydd a fydd yn weithredol o 2022 ymlaen.

Bydd y Blynyddoedd Cynnar yn dilyn rhaglen addysgu i gyd fynd â gofynion Cenedlaethol Fframwaith y Cyfnod Sylfaen.

Os bydd athro'n absennol oherwydd salwch neu gwrs hyfforddiant dilynnir y drefn a nodir yn ein polisi Prin Gyflenwi.

## Classroom Arrangements

This year, classrooms are arranged as follows:

| | |
|---|---|
| Nursery | Miss Anest Jones and Mrs Carys Wellsbury and Miss Esyllt Williams |
| Reception and Year 1 | Mrs Rowena Pegg and Mrs Eira Vickers |
| Year 2 and 3 | Mrs Sioned Evans and Miss Anest Jones a Mrs Bethan Hughes |
| Year 4,5,6 | Mrs Carys Wellsbury and Miss Gwawr Evans<br>Miss Esyllt Williams and Mrs Bethan Hughes- KS2 Teaching Assistant |

Teachers plan termly schemes of work for their class in conjunction with National Curriculum 2008 requirements, Revised Programmes of Learning for Welsh, English and Mathematics, the school's Long Term Schemes of Work and Topic Cycle. At the moment the school are planning and preparing for the new curriculum that will be statutory from 2022 onwards.

The Early Years follow a programme of learning based on the Foundation Phase Framework.If a teacher is absent because of illness or training needs we will follow the guidelines in our Rarely Cover policy.



## **Patrwm Diwrnod ac Oriau Dysgu**

Mae’r oriau dysgu fel a ganlyn:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Sesiwn y bore: | | 9:00 - 12:00 | Meithrin 9:00 - 11:00 |
| Prynhawn - | Cyfnod Sylfaen | 1:00 - 3:00 | |
| | Cyfnod Allweddol 2 | 1:00 - 3:30 | |

Gwerthfawrogir presenoldeb prydlon ar ddechrau pob sesiwn. Ni ddylai plant gyrraedd yr ysgol cyn 8:50 y.b. pan fydd y staff ar ddyletswydd i dderbyn y disgyblion wrth y giat i'w hebrwng i’r iard. Nid oes angen i’r rhieni ddod ar yr iard.

Addysgir y Cyfnod Sylfaen am 21 awr yr wythnos a’r disgyblion Cyfnod Allweddol 2 am 23½ awr yr wythnos yn ôl canllawiau’r Llywodraeth Cymru.

Ni chaniateir i ddisgyblion adael safle’r ysgol yn ystod y dydd oni bai fod eglurhad wedi ei dderbyn ymlaen llaw gan rieni.

Bydd yr ysgol yn sicrhau gofal ac iechyd y disgyblion tra yn ein gofal, a chedwir drysau’r ysgol ar glo yn ystod oriau dysgu er budd diogelwch bawb. Cyfrifoldeb rhieni ydy’r plant cyn 8:50 y.b, cyn iddynt gyrraedd safle’r ysgol, ac ar ôl 3:30yp neu ar ôl iddynt adael safle’r ysgol. Rhybuddiwn pawb i gymryd gofal arbennig ar y maes parcio gyda cheir, pan fydd plant yn cael eu hebrwng yn ôl ac ymlaen o’r ysgol.

Cawn ddau amser chwarae yn ystod y dydd, sef yn y bore o 10:30 – 10:45 ac yn y prynhawn rhwng 2:15-2:30pm. Bydd llefrith ar gael yn rhad ac am ddim yn ddyddiol i’r Babanod. Gall disgyblion ddod a ffrwyth eu hunain i'r ysgol ar gyfer amser chwarae'r bore.

Paratoir cinio yng nghegin yr ysgol yn ddyddiol i bawb os ydynt yn dymuno am £13.75 yr wythnos i’r Babanod a’r plant Iau. Y mae cinio’r ysgol yn ginio iach. Caniateir i blant ddod â brechdanau at amser cinio os ydy rhieni’n dymuno ond pwysleisir y dylai’r pecyn bwyd fod yn un iach. Bydd y plant yn cael eu hebrwng i’r Neuadd i gael eu cinio. Derbynnir yr arian cinio trwy’r system Parentpay os gwelwch yn dda. I’r rhai sydd yn gymwys, mae cinio am ddim ar gael. Gellir cysylltu â swyddfeydd y sir yn Bodlondeb, Conwy ynghylch yr hawl i ginio am ddim, a bydd angen i chi gwblhau’r broses cyn y bydd wedi ei awdurdodi. Cynigir bwydlen iachus gyda dewis i bob disgybl sy’n cynnwys ffrwythau a llysiau ffres a heb fod yn cynnwys ychwanegion. Gellir paratoi cinio ar gyfer plant â gofynion meddygol arbennig hefyd.

Hebryngir y plant at y giat amser mynd adre, a bydd athrawes ar ddyletswydd yn gofalu fod pob plentyn yn cyrraedd ei riant/ gwarchodwr / tacsi yn ddiogel. Os bydd rhiant yn methu cyrraedd mewn pryd, yna gwerthfawrogir neges ffôn i egluro hynny, a rhoi caniatad i rywun arall nôl y plentyn.

## Teaching Hours and School Day

The school hours are as follows:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Morning session: | | 9:00 - 12:00 | Meithrin 9:00 - 11:00 |
| Afternoon - | Foundation Stage | 1:00 - 3:00 | |
| | Key Stage 2 | 1:00 - 3:30 | |

Punctuality is expected at all times. Children should not arrive at school before 8:50a.m, when staff will be on duty at the gate to welcome pupils and escort them to their class. There is no need for parents to enter the school yard.

Teaching hours during a normal week comply with Welsh Government recommendations – 21 hours for Foundation Stage and 23½ hours for Key stage 2 pupils.

Pupils are not allowed to leave the school premises during the day unless this has been authorised by parents.

The school maintains health and safety arrangements for the pupils during the school day, and school doors are locked during lesson times to maintain security. Pupils are the parents' responsibility before 8:50 a.m and before they are on school premises, and after 3:30pm when they have left school premises. We ask that everyone takes extra care on the car park with cars whilst pupils are escorted to and from school.

We have two playtimes during the day, one in the morning from 10:30 – 10:45a.m, and one in the afternoon between 2:15-2:30pm. Free milk is available daily for all Infants. Pupils can bring a piece of fruit for morning playtime if they wish.

A school dinner is prepared on site and served every day for all pupils at a cost of £13.75 per week for Infants, and Juniors. School dinners are healthy ones. Children can opt to bring their own packed lunch should parents prefer but we do stress that the content should be healthy. Pupils are escorted to the Village Hall for their lunch. Dinner money is paid through the Parentpay system. For those who are eligible, free school meals can be obtained by contacting Bodlondeb county offices in Conwy. Please ensure process has been completed before assuming entitlement to free school meals. A nutritionally balanced menu with choices is available to all pupils containing fresh fruit and vegetables which is free from additives and colourants. Any special dietary requirements, with supporting medical advice, may also be catered for.

Pupils are escorted to the gate at home time, and the teacher on duty will release them to parents, guardians or taxis safely. Parents must notify the school by phone or letter if unable to collect their child, and inform the school if someone other than yourself is collecting your child.

## Polisi Derbyn yr Ysgol

Yn unol a Pholisi Derbyn yr Adran Addysg, derbynnir plant amser llawn ym mis Medi yn dilyn eu penblwydd yn 4oed. Derbynnir plant i'r dosbarth Meithrin rhan amser ym mis Medi yn dilyn eu penblwydd yn 3 oed. Bydd y plant Meithrin yn derbyn addysg hanner amser ac yn mynychu'r ysgol bob bore o 9:00- 11:00 o'r gloch.

Bydd cyfle i'r plant fydd yn cychwyn yn y dosbarth Meithrin ym mis Medi i dreulio hanner diwrnod yn y dosbarth yn ystod diwedd tymor yr Haf blaenorol, er mwyn eu helpu i ymgartrefu.

## School Admission Policy

The school adopts the Local Education Authority's Admission Policy. Pupils are admitted into full time education in the September following their 4th birthday. A child can be admitted into the Nursery class part time in the September following their 3rd birthday. Nursery pupils will receive part time education, and will attend school every morning from 9:00 – 11:00am.

New Nursery intake are invited to spend an induction morning at the school during the end of the summer term prior to admission.



## Ethos

Gan gydnabod ei sylfaen hanesyddol bydd yr ysgol yn cadw ac yn datblygu ei chymeriad crefyddol yn unol ag egwyddorion yr Eglwys yng Nghymru ac mewn partneriaeth â'r Eglwys ar lefel plwyf ac esgobaeth. 'Fel Ysgol Reoledig Wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru, yn Ysgol Betws yn Rhos rydym yn ceisio adnabod daioni ym mhob plentyn. Daioni y credwn sy'n deillio o Dduw. Rydym yn eu helpu i'w adnabod yn ei gilydd a'r byd o'u hamgylch. Rhoddir addysg y disgyblion o fewn cyd-destun cred ac ymarfer Cristnogol, ac yn hyrwyddo gwerthoedd Cristnogol trwy'r profiad mae'n ei gynnig i bob disgybl. Anelwn i annog eu synnwyr naturiol o barch a phleser, a chryfhau eu ffydd, gobaith a chariad fel sylfaen gadarn i adeiladu eu bywydau arni.'

Nod yr ysgol yw gwasanaethu ei chymuned trwy ddarparu addysg o'r ansawdd uchaf o fewn cyd-destun cred ac ymarfer Cristnogol. Mae'n annog dealltwriaeth o ystyr ac arwyddocad ffydd ac yn hyrwyddo gwerthoedd Cristnogol trwy'r profiad y mae'n ei gynnig i'w holl ddisgyblion.

## Ethos

Recognising its historical foundation, the school will preserve and develop its religious character in accordance with the principles of the Church in Wales and in partnership with the churches at parish and diocesan level. As a Church in Wales Voluntary Controlled School at Ysgol Betws yn Rhos, we seek to recognise goodness in every child. A goodness we believe stems from God. We help them to recognise it in each other and the world around them. The pupils' education is given within the context of Christian belief and practise, and promotes Christian values through the experience it offers to all of its pupils. We aim to encourage their natural sense of reverence and delight, and strengthen their capacity for faith, hope and love as a sound foundation on which to build their lives.

The school aims to serve its community by providing an education of the highest quality within the context of Christian belief and practice. It encourages an understanding of the meaning and significance of faith, and promotes Christian values through the experience it offers to all its pupils.



## Amcanion Cyffredinol

Ein nod yw creu awyrgylch hapus a chyfeillgar o fewn yr ysgol, meithrin gonestrwydd, diffuantrwydd, parch a hunan barch, ble bynnag bydd pawb yn cyd weithio'n hyderus a gofalus gyda'i gilydd. Credwn mewn rhoi canmoliaeth a theilyngdod pan fo haeddiant a gwerthfawrogwn gyfraniad pob unigolyn. Rhoir cefnogaeth cyfartal i bob unigolyn. Fel hyn, byddwn yn hyrwyddo datblygiad personol a chymdeithasol pob plentyn.

Addysgir Sgiliau Sylfaenol Llythrennedd, Rhifedd, Datrys Problemau a TGCh trwy gyfrwng y Cwricwlwm Cenedlaethol sydd yn cynnwys:-

Iaith – Cymraeg a Saesneg
Mathemateg
Gwyddoniaeth
Dylunio a Thechnoleg
Addysg Gorfforol
Hanes
Daearyddiaeth
Addysg Grefyddol
Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu
Cerdd
Celf



Byddwn yn datblygu perthynas glos rhwng athrawon â phlant gan roi cefnogaeth llwyr pan fo'r angen. Cedwir rheolau'r ysgol yn syml ac fe hyrwyddir disgyblaeth bendant. Rhoir cosb pan fo angen drwy atal breintiau.

Byddwn yn sefydlu agwedd iach o fewn yr ysgol i ddatblygu hunanbarch a hunanddisgyblaeth, ystyried eraill ac i dderbyn gwerthoedd moesol.

Wrth gyflwyno'r Cwricwlwm fe ofalwn fod cynnwys a natur y gwaith yn gymwys ar gyfer oed a gallu'r unigolyn fel bod gwahaniaethu addas ar gyfer anghenion pob plentyn.

<u>Disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol neu Anabledd</u> – Mae gan yr ysgol Bolisiau ar gyfer plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol sy'n sicrhau na fyddant yn cael eu trin yn llai ffafriol na disgyblion eraill. Mae gennym hefyd Gynllun Mynediad i'r anabl sy'n dangos sut rydym a sut byddem yn hwyluso mynediad i ddisgyblion gydag anableddau.

## Amcanion Penodol

Ein nôd ar gyfer pob plentyn yw: -

- Sicrhau fod pob plentyn yn cyrraedd ei lawn botensial.
- Sicrhau ein bod yn cynnig addysg lawn i bob plentyn gan sylfaenu popeth ar y Pedwar diben dysgu.
- Datblygu agwedd iach tuag at addysg a meithrin awydd i ddysgu, deall a chwilfrydedd am wybodaeth.
- Datblygu sgiliau llythrennedd, rhifedd, TGCh ac ysbrydoli brwdfrydedd, dychymyg a diddordeb y plentyn drwy wahanol weithgareddau a phrofiadau.
- Rhoi cymorth i ddangos sut mae cyd-fyw a datblygu agwedd fydd o gymorth wrth ddatblygu'n aelod cyfrifol o gymdeithas.
- Datblygu a hybu ymwybyddiaeth o werthoeddd moesol, ysbrydol a chrefyddol.
- Cynyddu medusrwydd sgiliau allweddol pob plenty.
- Darparu ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol, boed nhw'n anghenion addysgol neu'n blant MAT.
- Dysgu pob plentyn i gyfathrebu'n glir, yn gydlynus a hyderus a gosod targedau fel bod pob plentyn yn datblygu i fod mor rhugl â phosibl yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- Sicrhau bod cyfleoedd digonol i'r plant ddatblygu a meithrin balchder yn eu Cymreictod a'u hunaniaeth.

Mae'r Corff Llywodraethol yn ymwybodol o'u dyletswydd i adael i rieni weld:

- Unrhyw offerynnau statudol a chylchlythyron a anfonir gan y Cynulliad ynglyn a phwerau a dyletswyddau Llywodraethwyr.
- Unrhyw adroddiadau a gyhoeddwyd ar ôl Arolwg ysgol.
- Unrhyw ddogfennau eraill yn gysylltiedig â'r Cwricwlwm.



## Aims and Objectives

Our aim is to create an establishment with a happy caring and friendly atmosphere, where there is trust, confidence and openness, where individual contributions are valued, where praise and recognition can be given, and support offered when difficulties are encountered.

This approach is conducive to the personal, social and moral development of each child.

The Basic Skills of Literacy, Numeracy, Problem Solving and ICT are taught within the National Curriculum which covers the following areas:-

| | |
|---|---|
| Language – Welsh and English | Geography |
| Mathematics | ICT |
| Science | Design and Technology |
| Physical Education | Music |
| Religious Education | Art |
| History | |



The school aims to establish a healthy attitude to learning, to develop self respect and self discipline. School rules are kept simple and we promote positive discipline. Where punishment is necessary this takes the form of a reprimand and withdrawal from certain privileges.

We endeavour to instil in the pupils a healthy attitude towards school life and to develop self respect, self discipline, regard for others and acceptance of moral values.

When presenting the Curriculum, the school is careful in ensuring that the content and nature of the work is designed to suit the pupil's needs bearing in mind age and stage of learning.

Pupils with Additional Learning Needs or Disabilities The school has Policies regarding pupils with ALN or disabilities which ensure that these pupils are not treated less favourably than other pupils. We also have an accessibility Plan detailing how we are currently providing and how we will provide for pupils with disabilities in the future.

## **Specific objectives**

The school's philosophy and intentions are: -

- To enable each child to develop his/her full potential.
- To ensure that every child is offered a broad learning programme that is all based around the Four Main Purposes of the new curriculum.
- To develop a healthy attitude to learning, and create in each child a desire to learn, to understand, and seek further knowledge through interest.
- To assist each child to live and work with others, and to develop attitudes which will enable him/her to become a responsible member of the community.
- To develop and encourage an awareness of moral, spiritual and Christian values.
- To increase each child's capability to develop their key skills.
- To provide for pupils with additional learning needs, including the pupils with various learning difficulties or MAT pupils.
- To teach every child to communicate clearly, coherently and with confidence and to set clear targets with the aim for every child to become as fluent as possible in both Welsh and English.
- To provide ample opportunities for pupils to develop and to develop a proudness in their Welshness and identity.

The Governing Body is aware of its duty to allow parents to inspect:

- Any statutory instrument and circulars sent to school by the national Assembly about powers and duties of Governing Bodies.
- Any published Inspection Reports on the school.
- Any other documents relating to the National Curriculum.



## Polisi Iaith

Cymraeg yw iaith swyddogol yr ysgol a disgwylir i'r disgyblion siarad Cymraeg a'i gilydd gyda'r nôd y byddant yn hollol ddwyieithog erbyn iddynt gyrraedd un ar ddeg oed.Defnyddir y Gymraeg a'r Saesneg yn yr ysgol fel cyfrwng addysgu yng Nghyfnod Allweddol 2. Ein nôd yw galluogi pob plentyn i fod mor rhugl â phosib yn y ddwy iaith erbyn ddiwedd eu cyfnod yn yr ysgol.

## Language Policy



Welsh is the official language of the school and it is expected that the pupils speak Welsh together. The aim of the school is that the children will be completely bilingual by the time they are eleven years of age. Both Welsh and English are used as a teaching medium within Key Stage 2.Our aim is to enable every child to become as fluent as possible in both languages by the end of their time in school.

## Gwaith Cartref

Gosodir gwaith cartref yn achlysurol yn y babanod ac yn rheoliadd yn yr adran Iau. Anfonnir llyfr darllen adre gyda'r plentyn bob dydd yn rheolaidd fel rhan o'r gwaith cartref. Gwerthfawrogir unrhyw gefnogaeth a gaiff y plant gyda'u gwaith ysgol, a bydd yr athrawon bob amser yn barod i roi unrhyw gyngor neu gymorth.

## Homework

Homework is set occasionally in the infants and regularly in the junior department. A reading book is sent home with the child every day. Any support given to children with their schoolwork is appreciated. Teachers will always be willing to give advice when it is requested.

## Cyswllt â rhieni

Gwna pob aelod o staff yr ymdrech i sicrhau fod pob plentyn yn hapus, cartrefol a hyderus yn yr ysgol. Estynnir croeso i rieni ymweld â'r ysgol ar unrhyw adeg sy'n gyfleus i bawb. Gwahoddir rhieni i'r ysgol yn swyddogol i weld gwaith y plant ddwywaith y flwyddyn. Cynhelir y cyfarfod cyntaf ganol tymor yr Hydref, a'r llall ar ddiwedd tymor y Gwanwyn. Ar ddiwedd tymor yr Haf, cynhelir gwasanaeth ffarwelio â Blwyddyn 6 pryd y cyflwynir tystysgrifau a llyfrynnau Cofnod Cyrhaeddiad i ddisgyblion blwyddyn 6.

Gwerthfawrogir y bydd rhai rhieni efallai angen sgwrs am eu plentyn ar adegau eraill, a gellir trefnu hyn drwy gysylltu â'r ysgol o flaen llaw. Anfonnir adroddiad ysgrifenedig i'r rhieni ar ddiwedd pob blwyddyn ysgol.

Anfonnir llythyrau ar ebost neu adref gyda'r plant i roi gwybodaeth am weithgareddau'r ysgol. Yn achlysurol, trefnir cyfarfodydd rhieni ac athrawon er mwyn trefnu gweithgareddau i godi arian neu i gymdeithasu. Mae gennym bwyllgor Cymdeithas Rhieni ac Athrawon cryf sy'n gweithio'n galed i godi arian tuag at yr Ysgol.

Bydd y wybodaeth ddiweddaraf (lluniau a llythyrau) ar Safwe'r ysgol



## Home and school links

Everyone at the school makes every effort to try to ensure that children are happy and confident in school. Parents are welcome to visit school at a mutually convenient time. Parents are invited to come and see and discuss their child's work with the class teacher twice during the year. The first meeting is held mid Autumn term, and the other towards the end of the spring term. At the end of the summer term during our farwell service, certificates and Record of Achievement Booklets are presented to Year 6 pupils.

We appreciate that parents may wish to discuss issues at other times during the year and we ask you to consult school prior to any visit. A written progress report is sent home at the end of every school year.

Letters are sent to parents by email or by hand giving information about school activities and events. PTA meetings are held when fund raising or social events need to be arranged. We have a strong PTA committee that work hard raising funds towards the school.

Latest information (letters and pictures) is regularly updated on our school website

## ADDYSG GORFFOROL

Bydd pob plentyn yn derbyn Addysg Gorfforol bob wythnos. Caiff y gwersi eu cynnal yn y neuadd, ond yn ystod yr haf defnyddir y cae chwarae ar gyfer chwaraeon ac athletau. Disgwylir i bob plentyn wisgo'n briodol ar gyfer y gwersi gan ddod a'u bagiau Addysg Gorfforol ar ddechrau bob hanner tymor.. Ni chaniateir gwisgo clustdlysau na gemau i'r gwersi Addysg Gorfforol. Bydd yr Adran Iau yn cymeryd rhan ym Mabolgampau'r Urdd a Mabolgampau Bae Colwyn a'r ardal.

Cynhelir Clwb Chwaraeon ar ôl ysgol bob dydd Mercher drwy gydweithrediad gyda Chris Law sy'n gyfrifol amdano. Trefnir clybiau peldroed a rygbi yn achlysurol hefyd.

## PHYSICAL EDUCATION

Every child is taught Physical Education. The lessons are held at the Village Hall, and the sports field is used during the summer term for Games and Athletics. Suitable clothing must be worn for the lessons and PE bags should be brought to school at the beginning of each half term. Pupils are not allowed to wear jewellery for Physical Education lessons.The Juniors take part in the Urdd Sports and the Colwyn Bay and District Sports.

A Sports Club is held every Wednesday after school through close co-operation with Chris Law who runs it. Football and Rugby clubs are also held occasionally.

## Addysg Iechyd a Rhyw

Cadarnhawyd gan y Corff Llywodraethol i addysg Iechyd a Rhyw gael ei gyflwyno a'i ddysgu o fewn cyd-destun y gwaith thema, ac yn ôl gofynion y Cwriciwlwm Cenedlaethol, ac nid fel pynciau ar wahân.  Annogir pob disgybl i roi ystyriaeth i werth bywyd teuluol, moesoldeb, glendid a datblygiad personol a chymdeithasol. Gwahoddir nyrs yr ysgol i ymweld â phlant blwyddyn 6 yn ystod tymor yr haf i roi sgwrs a chyngor ynglyn â glendid personol a datblygiad corfforol.

## Health and Sex Education

The Governing Body have agreed and confirmed that health and sex education should be taught at the school within the context of thematic work, and in accordance with National Curriculum requirements, and not taught as separate subjects.  The teaching should encourage children to consider the value of a caring family life, moral issues, hygiene, and personal and social development. The school nurse is invited to school during the end of the summer term to talk and give advice to year 6 pupils about personal hygiene and physical development.

## Gwisg Ysgol

Cadarnhawyd y rheol gan y Llywodraethwyr fod gwisgo gwisg ysgol yn orfodol, er mwyn meithrin balchder, creu ymdeimlad o berthyn a sicrhau safon uchel mewn ymddangosiad.

- Sgert neu drowsus (dim rhai jogio) llwyd
- Crys gwyn neu grys polo gwyn.
- Siwmper neu gardigan marwn gyda logo swyddogol yr ysgol arni.
- Esgidiau addas(dim trainers) neu sandalau addas at yr haf.
- Sanau neu teits gwyn, marwn, llwyd neu ddu.
- Ffrog streipiau pinc / marwn ar gyfer yr haf.

**Gwisg Addysg Gorfforol**

- Shorts du a Trowsus jogio ar gyfer cyfnodau oerach
- Crys T marwn hefo logo'r ysgol
- Pympiau du heb garrai.

Mae'r wisg ysgol yn cael ei werthu drwy'r cwmni Boppers, Bae Colwyn..

**Cofiwch rhoi enw'ch plentyn yn glir ar bob dilledyn!**



## School Uniform

The Board of Governors has confirmed that the wearing of a school uniform is compulsory in order to help sustain pride, a sense of belonging and help maintain a high standard of appearance.

- Grey skirt, tunic or trousers (not joggers).
- School's white polo shirt or Plain white shirt.
- Maroon sweatshirt or cardigan with school logo.
- Suitable shoes and not trainers. Suitable sandals for summer.
- Candy striped dress for summer.
- White, grey, maroon or black socks / tights.

**Uniform for physical education.**

- Black shorts and Jogging bottoms for colder months
- Maroon t-shirt with logo
- Black slip-on plimsoles.

The school uniform is available through the Boppers company, Colwyn Bay.



**Please write your child's name on every item of clothing!**

## Gweithgareddau allgyrsiol ychwanegol

Rhoddir cyfle i'r plant ymgymryd ag amryw o weithgareddau tu allan i'r cwricwlwm arferol. Rhoddir cyfle i bob plentyn ymuno â'r Urdd ac i gynrychioli'r ysgol yn Eisteddfod yr Urdd, Eisteddfod Betws ac mewn cystadlaethau chwaraeon all gynnwys athletau, pêl rwyd, pêl droed, nofio, dawnsio a chyfnod mewn gwersyll gweithgareddau awyr agored. Rhoir cyfle i'r plant gystadlu gydag eitemau celf ac ysgrifenedig yn yr Urdd, Eisteddfod Betws yn Rhos a hefyd yn y sioe leol.

Rhoddir cyfle i ddisgyblion ddysgu chwarae offeryn cerdd ac yn bresennol medrwn gynnig gwersi llinynnol, bras a chwythbrennau. Ar ôl dod yn fwy rhugl, bydd cyfle i'r plant ymuno â cherddorfa ieuenctid Conwy unwaith yr wythnos ar ôl ysgol.

Caiff disgyblion CA2 gyfle i ddilyn sesiynnau yn y Clwb Coginio yn flynyddol.

Yn achlysurol bydd ymweliadau'n cael eu trefnu ar gyfer y plant. Gan amlaf, bydd yr ysgol yn gofyn am gyfraniad gan rieni tuag at gost yr ymweliad a chost trafnidiaeth.

Pan fydd eich plentyn yn cychwyn ysgol, fe roddir ffurflen caniatad i rieni i'w llenwi, fydd yn caniatau i'r plentyn gymeryd rhan mewn gweithgareddau tu allan i'r ysgol. Os oes gweithgaredd yn golygu aros dros nos, gofynnir i rieni lenwi ffurflen arall sy'n rhoi caniatad am y drefniadaeth a'r arolygiaeth.

## Extra Curricular Activities

Pupils are given opportunities to participate in a variety of extra curricular activities. Every child gets the opportunity to join the Urdd (the Welsh Youth Movement). By joining, they can enjoy the various activities and competitions involved, to represent the school. These include musical, recitation, and Art competitions held at the Urdd Eisteddfod, our local Betws Eisteddfod or Show and also a variety of sports competitions, which may include athletics, football, swimming, netball, rugby, and a period at an outdoor sports centre.

Pupils are given the opportunity to learn to play a musical instrument. Peripatetic tutors visit the school weekly to provide brass, woodwind, and violin tuition. When they have made sufficient progress, pupils are invited to play weekly with the Conwy Orchestra.

Occasionally, educational visits are organised for the pupils. Voluntary contributions from parents will sometimes be necessary to help fund such activities towards the cost of the event and transport.

KS2 pupils are offered sessions in the Cookery Club annually.

On entry to school, all pupils are given a consent form (Form A) to be completed by parents, to give consent to their child participating in school activities outside school premises. If the activity involves staying overnight, then parents are asked

to complete another form (Form B) which gives details of inventory and supervision.

## Absenoldeb

Mae bod yn bresennol yn yr ysgol yn rheolaidd a phrydlon yn holl bwysig. Heb hyn, all yr athro gorau gyflawni dim. Os yw eich plentyn yn absennol rhaid ffonio'r ysgol neu anfon neges i egluro'r absenoldeb ar y diwrnod cyntaf. Bydd unrhyw absenoldebau heb eglurhad yn cael eu marcio fel absenoldeb di-awdurdod. Hefyd, os yw plentyn yn hwyr yn cyrraedd yr ysgol yn rheolaidd, yna bydd yn cael ei farcio felly ar y cofrestr, a bydd angen i'r ysgol roi eglurhad o hyn i'r Adran Addysg.

## Absences

Attending school regularly and punctually is vitally important. Without it, the best teacher's efforts would be to no avail. If your child is absent from school, please send a message or telephone us on the first morning of the absence. Regulations state that any unexplained absences will be classified as unauthorised absences. Children arriving late will have a late mark on the register. In the event of regular late arrivals, the school is required to report the situation to the LEA.

## Anghenion Dysgu Ychwanegol

Cynnigir addysg gyflawn i bob plentyn, rhai ohonynt gyda anghenion arbennig. Os bydd plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol yna bydd yr ysgol, ar ôl cysylltu hefo'r rhiant, yn trefnu iddo / iddi dderbyn gwaith gwahaniaethol o fewn y dosbarth, yn ogystal â hyfforddiant unigol neu o fewn grwp am un sesiwn yr wythnos gyda'r athrawes anghenion dysgu ychwanegol. Pan fo angen arbenigedd i helpu'r plentyn, yna cysylltir â'r Adran Addysg am gefnogaeth. Hysbysir rhieni yn gyson am bob datblygiad. Bydd Polisi Addysg Anghenion Dysgu Ychwanegol ar gael yn yr ysgol i unrhyw riant sy'n dymuno ei ddarllen. Perthyn i'r ysgol gynllun Hygyrchedd ar gyfer yr anabl yn gorfforol.

## Additional Learning Needs

The school endeavours to cater for all pupils, some of whom have additional learning needs. Children who experience difficulty in certain areas of learning, will, with the consent of their parents, be offered extra help in the area causing concern. They will be withdrawn from class for one period each week to work with the Additional Learning Needs teacher. The class teacher will ensure that class work will suit the individual's needs and stage of learning. When Specialists help is required the school, after having parental consent, will consult with the LEA for support. Parents are informed of every development. The school's Additional Learning Needs Policy is made available to parents on request. The school has an Accessibility Plan for the physically disabled.

## Cyfle Cyfartal

Yn Ysgol Betws yn Rhos, ein hamcan yw i hyrwyddo pob disgybl i gyrraedd ei lawn botensial beth bynnag yw ei ei ryw, ei anabledd, ei hil, ei grefydd, ei anghenion ychwanegol neu gefndir cymdeithasol. O fewn y cyd-destun hwn mae Ysgol Betws yn Rhos yn ymrwymedig i ddileu gwahaniaeth anghyfreithlon ar sail hil neu anabledd ac i hyrwyddo cyfle cyfartal a pherthynas dda rhwng pobl o wahanol grwpiau hiliol ac anabledd. Rhoir cyfle a phrofiad i bob disgybl o addysg lawn, cytbwys a gwahaniaethol yn ôl gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae gennym Bolisi Cyfle Cyfartal, Cynllun Mynediad a Chynllun Cydraddoldeb i'r Anabl sy'n weithredol o fewn yr ysgol.

## Equal Opportunities

At Ysgol Betws yn Rhos, it is our policy to encourage each pupil to fulfil his/her educational potential regardless of gender, disability, culture, additional needs or social background. Within this context, we are commited to eliminating racial discrimination or discrimination against disability promoting equality of opportunity and good relations between people of different racial groups or disability. We aim to provide each pupil with the opportunity to experience a balanced, broad and differentiated curriculum. We have an active Equal Opportunities Policy, Accessibility Plan and Disability Equality Scheme.

## Trosglwyddo i Ysgol Uwchradd

Bydd plant yn trosglwyddo i un o'r ysgolion canlynol:-

- Ysgol Y Creuddyn, Bae Penrhyn.
- Ysgol Bryn Elian Bae Colwyn.

Dosberthir ffurflenni gan yr Adran Addysg i rieni yn ystod y tymor cyntaf y flwyddyn cyn trosglwyddo, er mwyn dewis ysgol Uwchradd i'w plentyn.

## Secondary School Transition

The majority of pupils transfer to the following secondary schools:-

- Ysgol y Creuddyn, Penrhyn Bay. (Bilingual - Welsh medium)
- Ysgol Bryn Elian, Colwyn Bay.

LEA preference forms are distributed to parents during the first term prior to transition.

## Disgyblaeth

Ein nod yw creu awyrgylch gynnes a chroesawgar o fewn yr ysgol er mwyn sicrhau fod pob disgybl a rhiant yn teimlo'n gartrefol yn ein mysg.
Mae gofal am y disgyblion yn gyfrifoldeb pob aelod o staff. Annogir y disgyblion i ddangos parch at eraill, at eiddo, ac i ddatblygu agwedd a pherthynas o ofal a goddefgarwch gyda'u cyfoedion, oedolion a phethau byw. Rhoddir cyfleoedd i'r disgyblion i ymestyn eu potensial ymhob agwedd o ddatblygiad, sef yn foesol, cymdeithasol, emosiynol, corfforol ac addysgiadol.
Rydym fel ysgol wedi mabwysiadu canllawiau Disgyblaeth Bendant pan yn delio ag ymddygiad disgyblion, sy'n golygu bod disgyblion sy'n cadw rheolau'r ysgol ac yn gweithio'n dda yn cael eu canmol yn rheolaidd, ac yn esiampl dda i eraill o ymddygiad ddisgwyliedig. Cedwir rheolau dosbarth ac ysgol yn syml, ond pan fo disgybl yn gwrthod dilyn rheolau ac wedi derbyn sawl rhybudd, yna cysylltir â rhieni. Am fwy o fanylion, mae Polisi Disgyblaeth a Pholisi Bwlio ar gael i rieni yn yr ysgol. Byddwn yn cadw cofnod o ymddygiad annerbyniol cyson yn yr ysgol.

## Discipline

Our aim is to create a warm and welcoming school atmosphere to ensure that pupils,and parents feel welcome.
All staff will make it their priority to ensure that children feel safe and secure at the school. Pupils are encouraged to show respect for people and property, and to develop tolerance and a caring attitude in their relationship with peers, adults and living things. Pupils are given opportunities to extend their individual potential in every aspect of development – moral, social, emotional, physical and intellectual.
As a school we have adopted an Assertive Discipline behaviour programme, which means that we have a positive approach to discipline, and always praise those pupils who follow school rules and work hard, and who set a good example for what is expected classroom behaviour. School and classroom rules are kept simple, but when a child continues to ignore rules, and have been given maximum warnings, then parents are contacted. Our Discipline and Bullying Policies are available at school. A record of regular unacceptable behaviour is kept at school.

## Cludiant

Cludir rhai plant i'r ysgol mewn tacsi. Darperir cludiant am ddim gan yr AALl i ddisgyblion oedran ysgol sy'n byw dros 2 filltir o'r ysgol briodol agosaf. Mae ffurflenni cais ar gael gan yr Adran Addysg.

## Transport

Some pupils are transported to school by taxis. Pupils who live more than 2 miles from their nearest appropriate school qualify for free transport. Application forms are available from the LEA

## Moddion

Nid yw'r Awdurdod Addysg na'r Awdurdod Iechyd yn cymeradwyo i athrawon roi moddion i ddisgyblion, onibai fod yr amgylchiadau yn rhai eithriadol. Os bydd angen i blentyn dderbyn moddion yn ystod oriau ysgol, gofynnir i rieni lenwi ffurflen caniatad sydd ar gael yn yr ysgol.

## Medication

As a general rule, medicines should not be sent to school, and teachers are not obliged to administer them, unless the circumstances are exceptional. If your child must have medicine during the school day, then parents are asked to fill in a consent form which is available at the school.

## Trefn gwyno

Y Pennaeth fydd fel arfer yn delio â chwynion, a gellir cysylltu â hi drwy ffonio, drwy lythyr neu drwy wneud apwyntiad i'w gweld. Gan amlaf gellir datrys problemau yn sydyn ac mewn modd anffurfiol o fewn yr ysgol. Pan na fo hyn yn bosibl, yna gellir cysylltu â chadeirydd y Llywodraethwyr neu gyda swyddog cyswllt yr ysgol yn yr Adran Addysg. Mae gan yr ysgol bolisi yn ymwneud â derbyn cwynion sydd ar gael i rieni sy'n dymuno hynny.

## Complaints Procedures

Complaints are normally dealt with by the Headteacher, who may be contacted by telephone, by letter or by appointment. Usually, problems can be resolved quickly and informally within the school. Where this is not possible, parents may contact Chair of Governors or the school's LEA link officer. School has a policy regarding Complaints procedures for your perusal.

*Cysylltwch â Pennaeth yr ysgol er mwyn trefnu cymorth os oes gan riant neu ofalwr anghenion ychwanegol yn ymwneud ag anabledd a/neu iaith, mater diwylliannol y bydd arnynt angen cymorth mewn digwyddiad arbennig.*

*If any parent or carer has additional needs relating to disability and/or language, cultural issues with which they require assistance at a particular school event, please contact the Headteacher at the school to arrange the assistance requested.*

# Canlyniadau Asesiadau Athrawon 2019/20

## Cyfnod Sylfaen / Foundation Phase

Canran o ddisgyblion yn cyrraedd y deilliant disgwyliedig, o leiaf Deilliant 5+
Percentage of pupils achieving the expected outcome at least outcome 5+

| Maes/Area | Ysgol/School 2019-20 |
|---|---|
| Datblygiad Personol a Chymdeithasol/Personal and social development | 100% |
| Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn Gymraeg/Language, Literacy and communication skills in Welsh | 86% |
| Datblygiad Mathemategol/Mathematical development | 86% |
| Dangosydd Cyfnod Sylfaen/Foundation phase indicator | 86% |

## Cyfnod Allweddol 2 /   Key Stage 2

Canran y disgyblion sy'n cyrraedd y lefel disgwyliedig o leiaf Lefel 4+
Percentage of pupils achieving the expected level at least Level 4+

| Pwnc/Subject | Ysgol/School 2019-20 |
|---|---|
| Cymraeg | 100% |
| Saesneg | 100% |
| Mathemateg | 100% |
| Gwyddoniaeth | 100% |
| Dangosydd pwnc craidd/ Core subject indicator | 100% |

## Darpariaeth ar gyfer Chwaraeon

Credwn fod gweithgareddau chwaraeon yn rhan bwysig o addysg plentyn. Mae cyfleusterau'r ysgol yn cynnwys defnydd o neuadd gyda chyfarpar, a defnydd llawn o gae chwarae a chwrt llawr caled ar gyfer gemau a chwaraeon. Defnyddir pwll nofio Eirias, Bae Colwyn ar gyfer gwersi nofio. Rhoddir pob cefnogaeth i'r disgyblion i gymryd rhan ymhob math o weithgareddau cystadleuol a gweithgareddau ar ôl ysgol.

## Sporting Aims and provision

The school views sporting activities as a vital component of education. The facilities at the school include an equipped hall for gymnastics lessons, and full use of a sports field and a tennis court for outdoor games and activities. The school makes use of Colwyn Bay Leisure centre for swimming lessons. Pupils are encouraged to take part in all kinds of competitive sports in and out of school hours.

## Codi Tâl

Cytunwyd gyda'r Corff Llywodraethol a'r sir ar gyfanswm i'r ysgol godi am wersi offerynnol. Gofynnir i rieni am gyfraniad tuag at gostau teithio a rhai gweithgareddau allgyrsiol.

## Charging and Remissions

The school's Board of Governors and Conwy County agreed on a sum for the school to charge for instrumental tuition. Parents are asked to contribute towards the cost of transport and certain curricular activities.



## Addysg Grefyddol

Rhoddir amser penodedig i gyflwyno Addysg Grefyddol i'r disgyblion a dilynir Maes Llafur Cytunedig Awdurdod Addysg Conwy. Gwneir trefniadau ar gyfer disgyblion nad ydy eu rhieni am iddynt fynychu gwersi Addysg Grefyddol yn rhannol neu'n llawn.

## Religious Education

R.E is taught weekly and the school follows Conwy Education Authority's agreed Syllabus for Religious Education. Alternative arrangements are made for those pupils whose parents wish to withdraw for all or part of Religious Education lessons.



## Gwasanaeth Cyd-addoli

Bydd yr addoliad dyddiol yn adlewyrchu'r ethos a'r gwerthoedd sy'n gyffredin rhyngom ni â'r Eglwys yng Nghymru. Cynhelir Gwasanaeth o Addoliad Gristnogol i'r ysgol gyfan deirgwaith yr wythnos yn ogystal â dau wasanaeth dosbarth. Dilynir y cwrs CAMAU yn wythnosol ar draws yr ysgol. Gwneir trefniadau ar gyfer disgyblion nad ydy eu rhieni am iddynt fynychu cydaddoliad yn rhannol neu'n llawn.

## Collective Worship

Daily worship reflects the ethos and values we have in common with the Church in Wales. Whole school Christian Collective Worship is held three times per week as well as two classroom assemblies. The PATHS course is followed on a weekly basis throughout the school. Alternative arrangements are made for those pupils whose parents wish to withdraw for all or part of Collective Worship.

## Cyngor Ysgol a Chyngor Eco

Mae gan yr ysgol ddau gyngor etholedig, brwdfrydig sy’n cyfarfod yn rheolaidd. Byddant yn trefnu gweithgareddau codi arian at elusennau, codi awgrymiadau ynghylch mân newidiadau o gwmpas yr ysgol a sicrhau bod cyfrifoldebau yn cael eu ysgwyddo gan ddisgyblion o fewn yr ysgol. Byddwn yn ethol aelodau newydd yn flynyddol.

## School Council and Eco Council

The school has two enthusiastic, elected councils which meet on a regular basis. They organise charity fundraising events, put forward suggestions for school effectiveness improvements and ensure that pupils have an opportunity to be responsible for aspects of school life. New members are elected annually.




## Cytundeb Rhieni ac Ysgol

Rhoddir ffurflen Cytundeb rhwng Ysgol a Chartref i bob disgybl ar ddechrau ei yrfa yn yr ysgol. Ar y ffurflen hon gofynnir am lofnod rhiant a phlentyn i gytuno â rheolau ac amcanion yr ysgol.

## Home / School Agreement

A Home /School Agreement form is signed by parents on admission to the school and pupils are asked to sign from year 2. Parents and pupils agree and are expected to abide by school rules and principles.

## Rhyddid Gwybodaeth

Mae'r ddeddf Rhyddid gwybodaeth yn mynnu bod cyrff a ariennir gan arian cyhoeddus, gan gynnwys ysgolion, yn egluro pa wybodaeth a gyhoeddir ganddynt. Rydym wedi llunio cynllun cyhoeddi sy'n nodi'r holl wybodaeth a gyhoeddwn yn rheolaidd a ble i ddod o hyd iddo. Gofynnwch i swyddfa'r ysgol am gael gweld y cynllun cyhoeddi neu ddarparu copi i chi yn rhad ac am ddim.

## Freedom of Information

The Freedom of information Act requires publicly funded bodies, including schools, to be clear about the information they publish. We have produced a publication scheme setting out all the information we publish on a regular basis and where to find it. Ask the school office to let you see the publication scheme or provide you with a copy free of charge.

## Diogelwch yn yr Ysgol

Mae'r corff llywodraethol yn ymrwymedig i sicrhau safon uchel o iechyd, diogelwch a lles pob aelod o'r staff, y disgyblion, ymwelwyr a chontractwyr yn unol â pholisi'r ysgol a hefyd polisi iechyd a diogelwch Cyngor Conwy. Mae hi'n ddyletswydd ar bob aelod o staff yr ysgol i dynnu sylw'r Pennaeth at unrhyw amheuaeth o achos yn ymwneud ag amddiffyn plant. Rhaid cyfeirio achosion o'r fath at y gwasanaethau cymdeithasol. Y Pennaeth sydd yn gyfrifol am unrhyw blentyn sydd mewn gofal. Yn absenoldeb y pennaeth bydd yr ail-gydlynydd amddiffyn plant yn gyfrifol.

## Safety in School

The school governing body is committed to securing a high standard of the health, safety and well-being of staff, pupils, visitors and contractors in line with the school policy and also Conwy County health and safety policy. It is every member of staff's responsibility to be aware of any child protection issues that arise. All concerns regarding these issues must be reported to the Social Services. The Headteacher is responsible for looked after children. If the Headteacher is absent the second child protection co-ordinator takes the responsibility.



Llwyddo gyda'n gilydd

PIC•COLLAGE